
*Rhif*: ***17*** *Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd* **Swnt Dewi**




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020
Sources: Ordnance Survey, Seazone, Pembrokeshire Coast National Park Authority, Natural Resources Wales

**ACM17:Swnt Dewi**



*Swnt Dewi o Garn Rhosson*



*Porthstinian gyda gorsaf y bad achub a'r angorfeydd*



*Arfordir y prif dir o Swnt Dewi - mae gorsaf y bad achub mewn lleoliad canolog gyda Charn Llidi i'r chwith a Charn Rhosson i'r dde*

## Disgrifiad Cryno

Mae Swnt Dewi ar ben gorllewinol Penrhyn Tyddewi rhwng Ynys Dewi a'r prif dir. Mae'n ehangder dynamig o ddŵr gyda cherhyntau llanwol cryfion a chreigiau peryglus ac mae'r anheddiad yn gyfyngedig iawn ond mae'r nodweddion hanesyddol a'r bywyd gwyllt yn gyfoethog ac mae yna olygfeydd morwrol gwych. Mae'n boblogaidd iawn ar gyfer teithiau bywyd gwyllt ac ymhlith y rheiny sydd wrth eu bodd yn chwilio gwefr mewn caiac neu gwch o fath arall.

## Nodweddion Allweddol

- Mae Swnt Dewi yn llwybr môr llanwol gogledd-de sy'n gwahanu'r ynys oddi wrth y prif dir gyda sianel ddofn ganolog, cerhyntau llanwol cryfion a chreigiau peryglus.
- Arfordiroedd creigiog danheddus ar y ddwy ochr, gyda chlogwyni hyd at 20-90m o uchder gydag un angorfa fechan ar y prif dir a childraethau bach tywodlyd, anhygyrch hwnt ac yma.
- Ymyl y clogwyn gyda gweundir a glaswelltir arfordirol a rhedyn gyda chymeriad gwyllt.
- Tirwedd fugeiliol, agored ar oledd ysgafn tua'r arfordir gyda rhai llain-gaeau canoloesol a chloddiau wedi eu torri'n isel.
- Ffurf adeiledig wedi ei gyfyngu at gapel Sant Stinian sy'n gofeb, gorsaf y bad achub, ambell anheddiad ac un fferm ar Ynys Dewi.
- Porth Stinian yw man ymadael teithiau cwch gwynt o amgylch Ynys Dewi ac oddi ar y lan ac mae'r angorfa'n boblogaidd ac yn brysur yn ystod y prif dymor.
- Mae'r Swnt yn ddarn dynamig o ddŵr a ddefnyddir gan gaiacwyr ac eraill ar gyfer dŵr gwyn o amgylch y Bitches a chreigiau eraill.
- Mae yna fywyd gwyllt cyfoethog sy'n defnyddio'r swnt a'r arfordir gerllaw gan gynnwys llamhidyddion a morloi.
- Mae Llwybr yr Arfordir yn rhedeg ar hyd arfordir y prif dir.
- Mae mynediad i gerbydau at yr arfordir wedi ei gyfyngu i un lleoliad gyda maes parcio cysylltiedig.
- Golygfeydd agored, heb eu difetha allan at Ynys Dewi, allan at y môr a golygfeydd hir ar hyd yr arfordir at bentiroedd pwysig i'r gogledd ddwyrain a'r de orllewin.

## Nodweddion Ffisegol

Mae Swnt Dewi (<500–1600m) yn llwybr môr llanwol gogledd-de sy'n gwahanu'r ynys oddi wrth y prif dir. Gellir rhannu llawr y môr, sy'n raean tywodlyd, ac yn gorchuddio craigwely sy'n taro gogledd ddwyrain - de orllewin, yn dri math morol: sianel ganolog, gweddol ddwfn (30-60m) wedi'i ffinio gan lawr y môr sydd ar oledd gymedrol i serth (>$10^0$) tua'r dwyrain a gwely'r môr sydd ar oledd gymedrol (1-10°) i'r gorllewin. Mae'r môr yn agored i bwysau uchel gan y gwynt a'r tonnau yn y mathau canolog a dwyreiniol, ond i lai o bwysau gan y tonnau yng nghysgod yr ynys.

Mae cerhyntau llanwol yn gryf (<6 milltir fôr), gyda chylchgerrynt ac egerau (o amgylch y Bitches) yn arwain at ddyfroedd bradwrus. Horse Rock yw'r prif berygl ac mae'n sychu i 0.9m pan fydd y llanw'n isel. Mae cerhyntau llanwol yn rhannu o amgylch Ynys Dewi. Amrediad y llanw yw 5.5m.

Mae pentiroedd y prif dir (60-70m UDO) wedi eu ffurfio o ddilyniant o dyffiau, mewnwthiadau a thywodfeini Cyngambriaidd-Cambriaidd sy'n taro gogledd dwyrain - de orllewin. Mae craigwely Ynys Dewi, sydd â llawer o ffawtiau, hefyd yn cynnwys sialau Ordoficaidd, ac mae'n cyrraedd 134m UDO yng Ngharn Llundain. Caiff y Swnt ei ffinio gan glogwyni (25-90m UDO), rhai ag ogofau a childraethau. Mae ardaloedd rhyglanw bron yn gyfan gwbl (98%) yn lannau creigiog ynni uchel, gyda childraethau tywodlyd bach. Mae'r gwynt a'r tonnau'n erydu ar ffurf sgrafelliad, athreuliad a symudiadau hydrolig.

Daw'r môr ac ardaloedd rhynglanw dan ACA Sir Benfro Forol. Dynodwyd y clogwyni, y glaswelltir a'r gweundir arfordirol fel AGA Ynys Dewi a Phenrhyn Tyddewi ac maen nhw hefyd yn Ardaloedd sy'n Bwysig ar gyfer Adar fel a ddiffiniwyd gan yr RSPB. Dynodwyd Ynys Dewi yn Warchodfa Natur Genedlaethol ac yn SoDdGA. Mae'n warchodfa bwysig sy'n eiddo i'r RSPB - gellir gweld palod, morloi, carfilod, gweilch y penwaig, llamhidyddion ac ambell ddolffin. Dynodwyd clogwyni'r prif dir fel SoDdGA Arfordir Penrhyn Tyddewi. Mae'r cerhyntau cryfion yn achosi organebau o'r sianel ddwfn i ddod tua'r wyneb ac mae hyn yn denu pysgod ac adar/ysglyfaethwyr mwy.

Mae'r arfordir yn gyfuniad o laswelltir a gweundir lled-naturiol ar hyd copa'r clogwyni ac ar frigiadau fel Carn Rhosson. Yn bennaf, mae cefnfro'r prif dir yn gyfuniad o borfa gyda pheth defnydd âr, pori garw a gwlypdir. Yn bennaf, mae arfordir dwyreiniol Ynys Dewi yn weundir a glaswelltir lled-naturiol gyda rhedyn.

**Dylanwad diwylliannol**

Mae defnydd hanesyddol yn cynnwys cyfathrebu Canoloesol rhwng Swnt Dewi ac ystad esgobol y prif dir a phererindod. Cefnogwyd economi ffermio'r gefnfro gan fasnachu a physgota arfordirol.

Roedd pobl yn byw ar Glegyr Boia i'r gorllewin o Dyddewi yn y cyfnod Neolithig a'r Oes Haearn. Mae aneddiadau Neolithig â dyddiad arnynt yn arbennig o brin yng Nghymru, ond mae darganfyddiad cytiau crai a chrochenwaith â gwaelod crwn o'r cyfnod Neolithig yn cadarnhau anheddiad ar y graig hon 5-6,000 o flynyddoedd yn ôl. Roedd Capel Porthstinian yn gyrchfan ar gyfer pererindodau i deithwyr canoloesol i Dyddewi ac roedden nhw'n casglu rhoddion a drosglwyddwyd at yr eglwys gadeiriol. Efallai bod yr adeilad presennol o garreg, o'r 16eg ganrif, yn cuddio strwythur cynharach, o bosib yn dyddio o'r cyfnod Cristnogol cynnar. Mae'r eger yn Swnt Dewi yn ffyrnig. Mae pedwar llongddrylliad a gofnodwyd yn gorwedd ar ochr ddwyreiniol y Swnt gan gynnwys y cwch cargo arfordirol , Count d'Aspremont, y mae ei foeler yn dal i sefyll yn falch ar wely'r mor (suddodd ym 1903). Suddwyd y Magella, cwch pysgota bach, mor ddiweddar â 1991, er bod gorsaf y bad achub gerllaw.

Mae'r henebion cofrestredig yn cynnwys:

- PE014 (capel Porthstinian): cymuned: Tyddewi
- PE109 (bryngaer Clegyr Boia): cymuned: Tyddewi
- PE295 (caer bentir Castell Heinif ): cymuned: Tyddewi
- PE421 (beddrod siambr): cymuned: Tyddewi

Mae'r ardal hon yn gyfan gwbl o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi.

Mae Clegyr Boia yn gysylltiedig â mor-leidr o'r 6$^{ed}$ ganrif o'r enw Boia a chredir ei fod ef o darddiad Neolithig hefyd. Mae yna dystiolaeth o anheddiad Gwyddelig arall yn enwau'r lleoedd. Mae'r ardal gyfan yn gysylltiedig â natur fordeithiol Cristnogaeth Ganoloesol.

Mae anheddiad wedi ei gyfyngu at ambell anheddiad o amgylch Porthstinian, ffermydd brodorol ymhellach tua'r tir ac un cyfres o adeiladau fferm ar Ynys Dewi, yn agos at y man glanio sydd nawr yn cael ei ddefnyddio gan yr RSPB. Mae yna Orsaf Bad Achub ym Mhorthstinian. Mae'r cyfleuster presennol ar golofnau, gyda llithrfa o flaen yr hen orsaf sy'n sied fach o gerrig yn ôl yn erbyn y clogwyni. Cynigir gorsaf bad achub modern arall, sy'n arwydd o'r newid yng ngofynion achub bywyd o amgylch dyfroedd Sir Benfro.

Mae Porthstinian yn ganolfan bwysig ar gyfer gweithredwyr teithiau bywyd gwyllt sy'n cludo

ymwelwyr allan at Ynys Dewi, Swnt Dewi a'r Bitches ac o'u cwmpas, ardal sy'n adnabyddus fel ffenomen dyfroedd gwyllt. Mae yna fynediad pontŵn i'r dŵr, angorfeydd siglo i weithredwyr cychod a hefyd maes parcio sy'n cael defnydd da yn agos at yr Orsaf a thua'r tir mewn lleoliad llai amlwg. Mae cychod hwylio modur a hwyliau ar draws yr ardal hon yn ogystal â chychod dydd, caiaciau, dingis hwylio a jet-skis. Defnyddir y Swnt fel llwybr mordeithio arfordirol sy'n cysylltu'r Aber a Solfach at Ogledd Cymru/Bae Ceredigion. Mae yna bysgota o'r môr hefyd, o gychod ac oddi ar y creigiau. Mae arfordira yn weithgaredd poblogaidd o amgylch yr arfordir hwn. Trwy gerdded Llwybr yr Arfordir, ceir golygfeydd gwefreiddiol ar draws y Swnt at Ynys Dewi yn ychwanegol at gyfleoedd i wylio bywyd gwyllt o'r clogwyni.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys dal cimwch a chrancod mewn potiau a'r potensial ar gyfer man-dreillio estyllod. Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol.

**Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol**

Mae'r Swnt ar raddfa fawr ac mae'n agored ond mae Ynys Dewi a chlogwyni'r prif dir sy'n rhedeg tua'r de o Benrhyn Sant Ioan, ar gefndir o frigiadau yn ôl o'r arfordir, yn ei gau i mewn. Mae'r tirffurfiadau hyn yn ffocysu golygfeydd allan at y môr i'r gogledd at Benmaendewi a chreigiau Bishops and Clerks ac i'r de at Fae Sain Ffraid a Sgomer yn y pellter. Mae gweadau garw'r clogwyni a'r creigiau yn mynd law yn llaw gyda rhinweddau'r dŵr sydd, ar bob adeg heblaw am tua 20 munud o lacio, yn symud yn gyflym tua'r gogledd neu'r de ar lanw a thrai, gan greu tonnau sy'n sefyll a thyrbedd dros greigiau fel y Bitches. Ar y dŵr, mae'r rhain yn creu drama a chyffro ac yn denu pobl sydd am eu gweld neu sy'n chwilio am wefr mewn cychod gwynt anhyblyg pwerus a chaiacwyr sy'n syrffio'r tonnau pan fydd yr amodau ar eu gorau. Mae'r clogwyni danheddus sy'n darparu diddordeb a golygfeydd gwych sy'n newid ar y lan o Lwybr yr Arfordir yn edrych yn ddau ddimensiwn o'u gweld o leoliad hanner ffordd ar draws y Swnt [tua 500m] a phrin y gellir gweld strwythurau a wnaed gan ddyn, fel gorsaf y bad achub. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad cryf o lonyddwch, gwylltineb a phellenigrwydd, ac atgyfnerthir hyn gan olygfeydd o forloi llwyd a, weithiau, llamhidyddion. Mae'r llonyddwch yn gostwng i raddau oherwydd y cychod gwynt anhyblyg a chychod eraill sy'n aml yn bombardio'r Swnt, gan ddod o Borthstinian sy'n harbwr bach prysur a lliwgar yn ystod y prif dymor. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd hwn yn tynnu'n sylweddol oddi ar yr harddwch naturiol, undod a chydbwysedd yn y darn hwn o ddŵr ac arfordir, ond yn hytrach mae'n rhoi mwy o fywyd i'r dŵr, gyda'r tonnau'n golchi'n fywiog. Mae'r elfennau sy'n difrïo yn cynnwys ambell dŷ a byngalo ynysig o'r 20$^{fed}$ ganrif mewn lleoliadau amlwg, y meysydd carafannau a phebyll a'r toiledau ger y maes parcio ym Mhorthstinian.

**Buddion diwylliannol a gwasanaethau**

Mae'r ardal yn cyfrannu'n sylweddol at wasanaethau hamdden ar ffurf hamdden forol, gan gynnwys teithiau bywyd gwyllt, at dreftadaeth naturiol ar ffurf y swnt gyda ffrydiau llanwol cryf a chreigiau, ac arfordir sydd, i raddau helaeth, heb ei ddifetha, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â'i ddiddordeb hanesyddol cenedlaethol a nodweddion sy'n gysylltiedig â Thyddewi gan gynnwys y capel ym Mhorthstinian.

## Rhesymau dros newid

**Crynodeb**

Erydiad arfordirol araf clogwyni creigiog, mwy yng nghefn y baeau. Mae cynllun rheoli'r traethlin yn dweud 'gwneud dim byd'.

Agorwyd ail orsaf bad achub, fwy modern yn 2016 gan nodi gofynion newidiol achub bywydau o amgylch dyfroedd Sir Benfro.

Mwy a mwy o ddefnydd gan weithredwyr teithiau cychod a defnyddwyr cychod eraill, yn dod yn bennaf o Borthstinian - gydag effaith ar lonyddwch ac, o bosib, ar fywyd gwyllt a chynefinoedd.

Ffermydd gwymon a physgod cregyn

Llwybr yr Arfordir yn cynyddu'r defnydd gan gerddwyr.

Cynnydd yn y defnydd o'r maes parcio a mynediad.

**Rhesymau allweddol dros newid**

| **Rhinweddau Arbennig** | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Egni ar y môr | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysblander yr Arfordir | | | ■ | ■ | ■ | | |
| Ynysoedd | | | ■ | | | | |
| Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | ■ | |
| Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch | | ■ | | ■ | | | |
| Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | ■ | ■ | | | ■ | |
| Archeoleg Gyfoethog | | | | | | | |
| Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | ■ | ■ | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| Mynediad i'r Parc | ■ | | | | | ■ | |
| Lle i Anadlu | | ■ | | ■ | | | |
| **Allwedd** | ■ | Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig | | | | | |

## Sensitifeddau allweddol

Swnt heb ei ddifetha gyda cheryntau llanwol cryf a chreigiau peryglus.

Arfordiroedd creigiog naturiol, danheddus, a childraethau bach tywodlyd anhygyrch gyda chymeriad gwyllt a naturiol cryf.

Gwerth ar gyfer cadwraeth natur gan gynnwys cynefinoedd arfordirol.

Bywyd gwyllt cyfoethog yn defnyddio'r swnt ac arfordiroedd cyfagos gan gynnwys llamhidyddion, morloi a'r frân goesgoch.

Cymeriad bugeiliol, gwledig, hanesyddol y gefnfro a'r cefndir o fryniau.

Nodweddion hanesyddol ac anheddiad cyfyngedig iawn.

Amlygrwydd llethrau bach y bryniau a rhyngweladwyedd yr arfordir.

Golygfeydd gwych, heb eu difetha bron, ar draws y Swnt ac ar hyd yr arfordir.

Llwybr Arfordir Sir Benfro fel derbynnydd sensitif.

Defnyddwyr teithiau cwch fel derbynyddion sensitif.

Mae gorsaf y bad achub yn strwythur sy'n gweithio.

Porthstinian yw'r man ymadael ar gyfer teithiau cwch bywyd gwyllt mewn cychod gwynt anhyblyg o amgylch Ynys Dewi ac oddi ar y lan ac mae'r angorfa'n boblogaidd ac yn brysur yn ystod y prif dymor.

Presenoldeb aneddiadau gwasgarog o'r 20G.